

Mae'r map hwn yn mynd â chi ar **lwybr argymelledig** o'r lleoliadau sy'n **dechrau** o **Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg** ac yn **dod** i ben ar **y Stryd Fawr**. Mae'r llwybr yn **3.1 milltir** o hyd a dylai gymryd tuag **awr** i'w gwblhau.

Os hoffech rannu unrhyw luniau o'r llwybr, defnyddiwch yr hashnod **#LlwybrHanesCymunedolyBarri**




Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg Arosfannau'r Llwybr:

- 1) Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
- 2) Caeau Buttrills
- 3) Mynwent Merthyr Dyfan (Elizabeth Hughes a Beatrice Lewis)
- 4) Ysgol Gynradd Gladstone (Abdulrahim Abby Farah)
- 5) Gerddi Gladstone
- 6) Canolfan Gelfyddydau'r MEMO
- 7) Stryd Fawr (T. A. Walker)

## Diolch am gymryd rhan!

Hoffem ddangos ein gwerthfawrogiad i aelodau o **Brofiad Fictoraidd Y Barri** a **thrigolion y Barri** am gyflwyno syniadau a gwybodaeth ar gyfer y llwybrau.

Hoffem ddiolch hefyd i **contractwyr a phartneriaid prosiect yr ysgol**:



## Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif 21st Century Schools and Colleges



# Llwybr Hanes Cymunedol y Barri – Llwybr a Gwybodaeth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

I ddathlu **Mis Hanes Cymunedol** ym mis Mai, rydym yn lansio **tri llwybr hanes cymunedol** sy'n dechrau yn ein tair Ysgol Gymunedol Dysgu Uwchradd; **Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Ysgol Uwchradd Pencoedre ac Ysgol Uwchradd Whitmore.**

**Cyflwynwyd** syniadau gan y **gymuned leol** ac mae pob pwynt ar y llwybr yn dathlu **digwyddiad hanesyddol pwysig, tirnod neu ffigwr arwyddocaol yn Y Barri.** Ewch am dro hamddenol ar hyd un ohonynt neu heriwch eich hun drwy gwblhau'r tri.




Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif, ewch i'n gwefan:

[www.valeofglamorgan.gov.uk/21st-Century-Schools](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/21st-Century-Schools)

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn eiddo addysgol ledled Cymru. Mae prosiect Cymunedau Dysgu Uwchradd Y Barri Ysgolion yr 21ain Ganrif yn buddsoddi £86.6 miliwn mewn tair ysgol uwchradd ar draws Y Barri.



## 1) Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Yr ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg gyntaf yn Y Barri. Sefydlwyd yr ysgol ym mis Medi 2000, yn Ysgol Isaf Ysgol Gyfun y Barri gynt. Erbyn 2002, roedd 369 o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7-9 yn yr ysgol.



Mae'r ysgol bellach yn ysgol pob oed (3-19) yn dilyn cyfuno Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ac Ysgol Nant Talwg ym mis Medi 2015. Ym mis Medi 2021 roedd 1,240 o ddisgyblion ar draws pob cyfnod addysg. Disgwylir i waith ailwampio gwerth £21.5 miliwn gael ei gwblhau yn 2021.

## 2) Caeau Buttrills

Chwedl boblogaidd yw bod y cae chwarae mawr a adwaenir fel "y Butts" yn cael ei ddefnyddio fel maes ymarfer gan saethyddion yn yr Oesoedd Canol. Roedd saethyddion bwa hir Cymru yn enwog am eu sgil ac yn chwarae rhan allweddol wrth drechu'r Ffrancwyr yn Agincourt yn 1415.



Mae "Butt" hefyd yn air Saesneg Canol am strided o dir rhwng ffyrdd, neu gornel neu 'rump' o dir. Ystyr 'Rill' yw nant neu afonig, mae ffrwd fechan, y Coldbrook, yn codi mewn cwm sy'n ffinio â'r "Butts" i'r gogledd.

## 3) Mynwent Merthyr Dyfan (Elizabeth Hughes)

Roedd Miss Elizabeth P. Hughes MBE (1851-1925) yn addysgwyr adnabyddus. Hi yw'r unig fenyw yr enwyd un o Golegau Caergrawnt ar ei hôl, sef Hughes Hall, Caergrawnt. Daeth yn Athro yn y Saesneg mewn tair o brifysgolion Japan, lle cafodd rodd gan yr Ymerawdwr am ei gwasanaeth i addysg menywod.



Pan ddychwelodd i'r Barri, hi oedd prif symbylydd sefydlu Clwb Menywod yr 20fed Ganrif, oedd â dros 700 o aelodau yn y 1930au. Mae plac bach wedi'i neilltuo iddi yn y fynwent.

## (Beatrice Lewis)

Ganed Beatrice Lewis (1877-1929) yn Nhrelai a phriododd William Jenkin Lewis, trimiwr glo.

Symudasant i'r Barri a byw yn Gyfnew Street a safodd yn etholiad 1919, y flwyddyn gyntaf i fenywod gael yr hawl gyfreithiol i sefyll etholiad neu i bleidleisio.



Hi oedd y Cynghorydd benywaidd cyntaf yn Y Barri a chynrychiolodd ward Castleland tan iddi farw. Bu'n gwasanaethu ar bwyllgorau iechyd y cyhoedd, tai a lles plant ac roedd yn allweddol o ran gwella darpariaethau mamolaeth i fenywod yn Y Barri. Mae plac bach wedi'i neilltuo iddi yn y fynwent.

## 4) Ysgol Gynradd Gladstone (Abdulrahim Abby Farah)

Ganed Abdulrahim Farah (1919-2018) yn Y Barri i Abby Farah a Hilda Anderson, a oedd yn rhedeg tŷ preswyl ar y cyd. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gladstone yn Y Barri cyn mynychu Ysgol Ramadeg y Barri.


Daeth yn Llysgennad Somalia i Ethiopia yn y 1960au, Cynrychiolydd Parhaol Somalia i'r Cenhedloedd Unedig (UN) 1965-72, a Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig 1979-1990. O 1969-1972, Farah oedd Cadeirydd Pwyllgor Arbennig y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Apartheid a chafodd ei adnabod fel y "Boi o'r Barri a helpodd i ryddhau Mandela".



Ar ôl ymddeol, sefydlodd ysbty trychedigion ar gyfer dioddefwyr ffrwydron tir yn Somalia a – thrwy gymorth ariannol a mentora – helpodd lawer o bobl ifanc i gael addysg. Ysgogodd ei farwolaeth yn 2018 deyrngedau o bob cwr o'r byd.

## 5) Gerddi Gladstone

Mae man gwyrdd dymunol yng nghanol Y Barri, Gerddi Gladstone wedi ei enwi ar ôl William Gladstone oedd yn Brif Weinidog bedair gwaith.



Pan ddaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru i'r Barri yn 1968, defnyddiwyd Gerddi Gladstone ar gyfer y seremoni agoriadol a chynhaliwyd Seremoni Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 yn y Gerddi hefyd. Mae'r parc wedi ennill statws y Faner Werdd.

## 6) Canolfan Gelfyddydau'r MEMO

Yn y 1920au roedd pobl Y Barri am ddarparu cofeb addas i'r rhai o'r Barri oedd wedi rhoi eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cododd disgynyddion y diwydiannwr David Davies a phobl y Barri £26,000 (yn agos i £4m yn arian heddiw) ac agorwyd y Senotaff yn 1932. Yna cwblhawyd y Theatr a'r Neuadd ym 1933.



Mae'r Senotaff a'r Neuadd Gof yn parhau i fod yn gofebau teilwng i bob un o'r 1,818 o bobl o'r Barri a roddodd eu bywydau mewn dau Ryfel Byd a gelyniaeth ddilynol.

Y MEMO hefyd ar hyn o bryd yw'r lleoliad aml-gelfyddydol mwyaf ym Mro Morgannwg, a'r unig arddangoswr sinema yn Y Barri.

## 7) Y Stryd Fawr

Wedi'i adeiladu yn y 19eg Ganrif, mae'r siopau wedi rhoi popeth y gallai fod ei angen ar drigolion o ffrwythau a llysiau traddodiadol, nwyddau wedi'u pobi, a blodau. Mae nawr yn ymestyn i driniaethau llesol a gwaith celf a gynhyrchir yn lleol. Mae'r Stryd Fawr bron 100% yn annibynnol, yr ardal siopa fwyaf annibynnol yng Nghymru yn 2018 a'r pedwerydd yn y DU.



Roedd y Stryd Fawr hefyd yn lleoliad digwyddiad Balchder LHDT+ cyntaf erioed Y Barri yn 2019.

## (Thomas Andrew Walker)

Roedd T. A. Walker (1828-1889) yn gyfrifol am gloddio'r doc; bu'n rhaid cloddio allan a chwareli llawer o garreg. I waredu'r deunydd gwastraff er y fantais orau adeiladodd dref Y Barri.



Erbyn 1889 roedd nid yn unig wedi adeiladu'r doc ond hefyd tua 300 o eiddo, gan gynnwys tai, siopau, ysgolion ac adeiladau cyhoeddus. Gallwch weld ei flaenlythrennau'n wedi'u cerfio ar rai o'r siopau diwedd teras mwyaf ar y Stryd Fawr.